MAE GWIR GREFYDD YN DIWALLU ANGHENION CYMDEITHAS DDYNOL

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i weld fod gwir grefydd yn diwallu anghenion dynol. Dangoswch ei bod yn seiliedig ar y Beibl ac y caiff ei harfer dim ond gan y rhai sy'n gwasanaethu Jehofah. Cadwch ffynonellau seciwlar yn gyfoes drwy ddefnyddio adroddiadau a gyhoeddir yn *The Watchtower* a'r *Awake!*

ANGHENION ARBENNIG Y GYMDEITHAS DDYNOL (5 mun.)

Fe greodd Jehofah Dduw fodau dynol gyda'r angen i addoli

Fe ddywed *The New Encyclopædia Britannica:* "O'r hyn a ddarganfu ysgolheigion, 'does 'na'r un bobl wedi bodoli erioed, yn unman, ar unrhyw adeg, nad oedden' nhw mewn rhyw ystyr yn grefyddol." (*g*89 1/8 4; *sh* 28)

Mae angen cyfarwyddyd dwyfol hefyd ar gymdeithas ddynol heddiw (Darllen Jeremeia 10:23)

Yn wyneb ysfa dyn i addoli a'i angen am gymorth dwyfol, gofynnwn:

'Ydi crefyddau'r byd yn diwallu anghenion ysbrydol y ddynoliaeth?

'Ydi crefyddau'r byd hwn wedi dyrchafu cymdeithas ddynol yn foesol?

'Ydi'r crefyddau hyn yn hyrwyddo heddwch, yn sicrhau hapusrwydd teuluol, a rhoi amcan boddhaus i bobl mewn bywyd?

BETH MAE CREFYDDAU'R BYD YN EI WNEUD DROS GYMDEITHAS DDYNOL? (10 mun.)

Nid yw anghenion ysbrydol yn cael eu diwallu; mae crefydd ar drai (*tp* 22-6)

'Dyw moesoldeb ddim yn gwella

Drwy addysgu ac esiampl, mae arweinwyr crefyddol yn gyfrifol am y dirywiad moesol (*g*89 1/8 8-9; *w*87 10/15 3-4; *w*86 4/15 21; *tp* 26-31)

Nid yw heddwch yn cael ei hyrwyddo, gan fod crefyddau'r byd yn aml yn annog rhyfel

Ysgrifennodd yr awdur Tom Harpur: "Mae crefydd . . . rywsut yn canfod ffyrdd i ganiatáu trais neu ei anwybyddu hyd yn oed pan fo hi ei hun yn bennaf gyfrifol amdano neu'n ei gudd achosi."—*The Toronto Star,* Ionawr 17, 1993

Mae cofnod sylweddol am rôl crefydd mewn rhyfel (*w*88 2/1 17; *g*88 12/22 20)

I filiynau mae hapusrwydd teuluol yn rhywbeth anodd dod o hyd iddo er gwaethaf eu crefydd

Mae ysgariad a chwalu teuluoedd yn rhemp (*w*84 10/1 4-7)

Nid yw profi bywyd pwrpasol seiliedig ar wybodaeth am Dduw yn dod i ran clerigwyr hyd yn oed

Dywedodd un clerigwr adnabyddus: "Pam pechod? Pam dioddefaint? Pam y diafol? Dyma gwestiynau 'rydw i eisiau eu gofyn i'r Arglwydd pan gyrhaeddaf y nefoedd."—*U.S.News & World Report,* Mai 3, 1993

Eto 'dyw hyn ddim yn golygu fod pob crefydd wedi siomi cymdeithas ddynol

PAN DDIWALLODD UN GREFYDD ANGHENION DYNOL (12 mun.)

Diwallwyd anghenion ysbrydol gan wir grefydd oddi wrth Dduw

Jehofah, Arglwydd Frenin y Bydysawd yn unig 'roedd Adda ac Efa yn ei addoli

Fe wyddai Jehofah, eu Creawdwr, sut i roi cyfarwyddyd perffaith iddynt

'Doedd dim angen yr offeiriadaeth na'r deml yng nghartref paradwys Adda, gan y gallai gyfathrebu â Duw yn bersonol agos

Gofynnai gwir grefydd ddihalog am uniondeb moesol

Câi cyfiawnder ei ddilyn cyhyd ag yr addolid Jehofah yn ufudd

'Doedd dim angen aberthau gan fod bodau dynol yn ddibechod y pryd hwnnw

Heddwch a thawelwch oedd yn teyrnasu

'Doedd dim ofn duwdod dialgar 'roedd yn rhaid ei ddyhuddo

'Roedd cariad Duw yn hyrwyddo teimlad o ddiogelwch (1In 4:8)

Sicrheid hapusrwydd teuluol petai Adda ac Efa yn addoli Jehofah Dduw yn unol â datguddiad a chyfarwyddyd dwyfol

Gosodwyd bywyd pwrpasol oedd yn bodloni o flaen Adda ac Efa, gan iddynt gael eu bendithio â gwaith a roddai foddhad (Darllen Genesis 1:27, 28)

Rhoddwyd cychwyn i gau grefydd pan arweiniodd Satan y pâr cyntaf i wrthryfela yn erbyn Duw a chefnu ar wir addoliad (Gen 2:17; 3:1-7)

Fe gamgynrychiolodd Satan Jehofah gan ddweud Ei fod yn erbyn buddiannau dynol
Hyd heddiw, ar gelwydd mae gau grefydd wedi'i seilio yn bennaf (In 8:44)
Yn cyferbynu â hyn, fodd bynnag, mae gwir grefydd yn diwallu anghenion dynol heddiw

Y MODD MAE GWIR GREFYDD YN DIWALLU ANGHENION DYNOL HEDDIW (13 mun.)
Mae anghenion ysbrydol y rhai sy'n arfer gwir grefydd yn cael eu diwallu
Jehofah, yr unig wir Dduw, sy'n cael ei addoli (Mth 4:10)
Diwellir ysfa addoli ei bobl ymgysegredig trwy berthynas agos, ymddiriedol gyda Jehofah (Diar 3:5, 6)
Derbynnir arweiniad dwyfol trwy Air Duw a chyhoeddiadau'r 'gwas ffyddlon' (Mth 24:45; Salm 119:105)
Mae gwir addolwyr yn mwynhau bendithion eraill hefyd (In 4:23; *w*91 5/1 18)
Heb eu drysu gan ddysgeidiaeth y Drindod (In 14:28; 1Cor 8:5, 6)
Mae ganddyn' nhw ffydd yng Nghrist a gobaith iachawdwriaeth (In 3:16; Act 4:12)
Yn sylweddoli i ddyn gael ei greu gan Dduw ac nid esblygu (Gen 2:7)
Yn gwybod fod yr enaid yn marw, ond bod atgyfodiad yn bosib' (Esec 18:4; Act 24:15)
Yn gallu egluro pam mae pechod a dioddefaint yn bod 'nawr (Rhuf 5:12)
Yn ymwybodol fod diwedd y drefn ddrwg hon yn agos
Yn llawenhau yng ngobaith bywyd tragwyddol yn nhrefn newydd Duw (In 17:3)
Mae safonau moesol gweision Jehofah yn uchel am eu bod yn ufuddhau i'w ofynion cyfiawn (Salm 97:10; Mth 6:33)
Mae Tystion Jehofah yn canlyn heddwch
Wedi'u huno gan wir grefydd yn frawdoliaeth fyd-eang (*g*90 12/8 8-10)
Wedi 'curo eu cleddyfau'n geibiau' (Darllen Eseia 2:4)
Daw hapusrwydd teuluol o gymhwyso Gair Duw (*w*93 5/1 4-6)
Y Beibl yn rhoi arweiniad ymarferol ar gyfer perthnasu dynol a bywyd teulu
Yr Ysgrythurau yn helpu aelodau teulu i gyflawni eu rolau (Eff 5:33; 6:1)
Mae bywyd pwrpasol sy'n bodloni yn gyffredin i bawb sy'n arfer gwir grefydd
Maen' nhw'n weithredol bregethu Gair Duw (Darllen Rhufeiniaid 10:10)
Mae'r llawenydd sy'n dod o helpu eraill yn ysbrydol yn eiddo iddynt
'Dyw hi byth yn rhy hwyr i gael bywyd pwrpasol yng ngwasanaeth Duw (*g*91 3/22 9)

BYDD GWIR GREFYDD BOB AMSER YN DIWALLU ANGHENION CYMDEITHAS DDYNOL (5 mun.)
Oherwydd mai oddi wrth Dduw mae gwir grefydd, 'dyw hi ddim ar drai fel mae gau grefydd, a 'wnaiff hi byth fethu (*g*89 11/22 20)
Bydd gwir grefydd bob amser yn diwallu anghenion ysbrydol y ddynoliaeth ac yn helpu pobl i gadw safonau moesol uchel
Bydd yn parhau i hyrwyddo heddwch, codi teuluoedd hapus, a rhoi i'r rhai sy'n ei harfer hi fywyd llawn pwrpas sy'n bodloni
Bydd gwir grefydd hefyd yn diwallu angen dyn am fyd newydd (2Pedr 3:13)
Byd o heddwch diddiwedd fydd hwnnw (Salm 37:10, 11; 46:8, 9)
Yn y diwedd bydd Satan y dinistriwr heddwch yn cael ei ddryllio (Rhuf 16:20)
'Fydd 'na ddim dagrau, poen, marwolaeth mwyach i ddynoliaeth ufudd wedi'i dyrchafu i berffeithrwydd ar ddaear baradwys (Darllen Datguddiad 21:4)
Beth 'wnewch chi ynglŷn â gwir grefydd a'i sail gobeithion rhyfeddol?
Dysgwch amdani, closio ati a'i gwneud yn eiddo i chi os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny
Gadewch i addoliad pur roi ystyr i'ch bywyd
Anelwch i fod ymhlith y rhai fydd yn arfer gwir grefydd yn dragwyddol er clod a gogoniant i Jehofah
Cofleidiwch a glynu wrth yr un wir grefydd sy'n diwallu anghenion cymdeithas ddynol
(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)